**<u>Cyfarfod cyntaf Grŵp Bioamrywiaeth Tir Ffermio Isel Cymru.</u>**

**<u>Technium, Y Lanfa, Aberystwyth, 2 Chwefror 2009.</u>**

| | | |
|---|---|---|
| Cadeirydd: | Caryn Le Roux | (Llywodraeth Cynulliad Cymru) |
| Yn bresennol: | Gethin Davies | (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri) |
| | Charles Grisedale | (Ymddiriedolaeth Adfer y Cornicyll) |
| | Claire Burrows | (Cyngor Cefn Gwlad Cymru) |
| | Jonathon Hughes | (Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Sir Benfro) |
| | Clive Faulkner | (Montgomeryshire Wildlife Trust) |
| | Hillary Miller | (Cyngor Cefn Gwlad Cymru) |
| Ymddiheuriadau: | Charles Morgan | (Pori Natur a Threftadaeth) |
| Cofnodion: | Sian Hughes | (Llywodraeth Cynulliad Cymru) |

## 1. Cyflwyniadau

1.1 Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod am 11:00 a rhoddodd olwg gyffredinol ar y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth a rôl y grŵp.

## 2. Aelodaeth y grŵp

2.1 Adolygwyd aelodaeth y grŵp ac awgrymwyd y dylid annog Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr/Undeb Amaethwyr Cymru i ddod i'r cyfarfodydd, ac y dylid gwahodd Ecolegydd Cyngor Sir Caerfyrddin, Rosie Carmichael, i ymuno â'r grŵp, gan fod ganddi arbenigedd yng nghyswllt y Rheoliadau Gwrychoedd.

Gweithredu – Caryn i gysylltu â Rosie

## 3. Adolygu amcanion y DU a'r targedau i Gymru:

Mae'r diffiniad o bob cynefin â blaenoriaeth i'w weld ar:
http://www.ukbap.org.uk/library/UKBAPPriorityHabitatDescriptionsfinalAllhabitats20081022.pdf

Mae adolygiad o'r targedau yng Nghymru, i ba raddau y maent yn cael eu cyrraedd ar hyn o bryd a'r sylwadau a wnaed yn y cyfarfod hwn ar gael ar wahân.

- **Gwrychoedd**

3.1 Cyflwynwyd gwrychoedd, eu diffiniad BAP (Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth) a'r targedau gan Claire Burrows. Dywedodd fod cynnydd mawr yn Nharged 7 (T7 – gwella cyflwr poblogaeth coed gwrychoedd drwy gynyddu'r nifer o goed ifanc (1-4 oed) ym Mhrydain Fawr i 40,000 erbyn 2010 a 80,000 erbyn 2015 (heb gynnwys Gogledd Iwerddon)).

**Gweithredu - Caryn i roi gwybod faint o wrychoedd sy'n cael eu cofnodi.**

3.2 Dywedodd y grŵp fod T1 (Cynnal maint net gwrychoedd ar draws y DU) a T8 (Sicrhau cynnydd net o 800km y flwyddyn yn yr hyd o wrychoedd ym Mhrydain Fawr erbyn 2010 a 2015 (heb gynnwys Gogledd Iwerddon)) yn gorgyffwrdd a'u bod o bosibl yn gwrthddweud ei gilydd.

3.3 Gofynnodd Claire i'r grŵp sut y gallem gyflawni T4 (Sicrhau fod 243,000 km (35%) o wrychoedd mewn cyflwr ffafriol erbyn 2010 a 348,000 km (50%) erbyn 2015 (heb gynnwys Gogledd Iwerddon)). Awgrymodd y grŵp y gellid cyflawni hyn drwy bori, terfynau sy'n ddiogel rhag da byw, tocio ac addysg, er bod monitro'r gorfodi yng nghyswllt tocio blynyddol yn broblem mewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol.

3.4 Teimlai'r grŵp nad oes modd monitro T5 (Gwrth-droi cyflwr anffafriol gwrychoedd sy'n cael eu gor-reoli ar draws y DU drwy leihau'r gyfran o reolwyr tir sy'n tocio'u gwrychoedd yn flynyddol i 60% erbyn 2010 (perthnasol i Loegr yn unig)) felly a ddylai fod yn darged yng Nghymru?

3.5 Dywedodd Claire wrth y grŵp y gallem ei chael yn anodd cyrraedd y targedau'n ymwneud â hen goed oherwydd newidiadau yn yr hinsawdd. Pan gollir hen goeden, mae'r fioamrywiaeth gysylltiedig yn cael ei cholli hefyd.

- **Ymylon Caeau Âr**

3.6 Wedyn cyflwynodd Claire y diffiniadau a'r targedau o ran Ymylon Caeau Âr. Dywedodd wrth y grŵp fod y diffiniadau wedi newid yn 2005 a bod angen monitro cyflwr Tir Gofal.

**Gweithredu: Caryn i edrych eto ar fanylion contract monitro Tir Gofal sydd wedi cael ei osod yn ddiweddar.**

3.7 Teimlai'r grŵp fod T2 (Cynyddu arwynebedd yr ymylon sy'n darparu hadau i adar gwyllt i 20.8kha erbyn 2010) yn darged sy'n peri pryder, ac nad yw T4 (Cynyddu'r arwynebedd o ymylon glaswellt parhaol i 27kha erbyn 2010) o reidrwydd yn werth ei wneud ym mhobman. Dylai gael ei dargedu – er enghraifft, dylai glaswelltir sy'n gynefin i gacwn gael ei adfer cyn ymylon caeau âr. Teimlai'r grŵp fod angen iddo ystyried beth y gellir ei wneud gyda adnoddau cyfyngedig, a chysylltu â'r grŵp Ecosystem Glaswelltir.

3.8 Teimlai'r grŵp fod gwrthdaro rhwng adar a phlanhigion ar dir âr ac mai mater i'r swyddogion prosiect yw penderfynu beth sy'n elwa fwyaf ar safleoedd amaeth-amgylcheddol.

- **Perllannau**

3.9 Cyflwynodd Hilary Miller y diffiniadau a'r targedau o ran perllannau. Dywedodd wrth y grŵp y byddai'n achosi dyblygu pe câi hyn ei wneud fesul gwlad, felly Natural England sy'n arwain ar hyn.

3.10 Dywedodd Hilary wrth y grŵp na chytunwyd ar unrhyw dargedau eto, ac nad ydym mwy na thebyg yn gwybod pa berllannau sydd gennym yn barod.

Amcangyfrifir fod 840ha o berllannau, a bod 440ha o'r cyfanswm hwnnw yn berllannau traddodiadol (seiliwyd hyn ar ddata OS).

**4. Camau Gweithredu i'r Grŵp Polisi a**
**5. Chamau Gweithredu i'r Grŵp Tir Ffermio**

4.1 Darparodd y grŵp fewnbwn i bapur trafod ar bob pwnc a fydd yn cael ei anfon i'r Grŵp Polisi.

**Gweithredu - Sian i ddrafftio papurau materion, i fod ar gael yn y cyfarfod nesaf.**

**6. Ffynonellau cyllid**

6.1 Byddai'r angen am gyllid ar gyfer monitro yn cael ei ddwyn i sylw Grŵp Polisi Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru (PBC), a thrafodwyd y posibilrwydd o Arian Treftadaeth gan y Loteri.

**7. Trosglwyddo Gwybodaeth/Cyfathrebu**

7.1 Cafodd papur gan Grŵp Llywio Cynefinoedd y DU ar Wrychoedd ei gylchredeg, sef **Key messages: The importance of hedgerows.** Cafwyd trafodaeth fer am yr anghenion trosglwyddo gwybodaeth, gan dynnu sylw at y cysylltiadau â'r rhaglen Cyswllt Ffermio.

**8. Cysylltiadau â Chynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol**

8.1 Mae angen trafodaeth bellach.

**9. Unrhyw Fater Arall**

9.1 Tynnodd Claire sylw at yr angen i sefydlu rhaglen waith. Dechreuir gwneud hynny yn y cyfarfod nesaf.

Daeth Caryn â'r cyfarfod i ben am 15:00.